LIBRARY OF PRINCETON
AUG 21 [illegible]
THEOLOGICAL SEMINARY

# COR Y PLANT,

YR AIL ARGRAFFIAD,

WEDI EI YCHWANEGU A'I DDIWYGIO;

SEF

## HYMNAU A THONAU GWREIDDIOL A DETHOLEDIG,

AT WASANAETH YR

## YSGOLION SABBOTHOL A'R BAND OF HOPE,

GAN

WM. AUBREY POWELL

(PENCERDD.)

---

"Oni ddarllenasoch chwi erioed, O enau plant bychain a rhai yn sugno y perffeithiaist foliant!"

---

New York:
Cyhoeddwyd gan J. W. TAYLOR, 15 Vandewater Street.
1875.

# RHAGLITH.

Yr oeddem yn meddwl y buasai rhyw un cyn hyn wedi ymaflyd yn y gorchwyl o gyhoeddi llyfr tonau at wasanaeth ein ysgolion Sabbothol Cymreig.

Gan nad oes neb wedi anturio i'r maes, wele ni yn ol ein addewid yn dyfod a'r ail argraffiad o'r llyfr bychan hwn allan; gydag ychwanegiadau lawer. Y mae gwir angen y fath lyfrau arnom, a bydd llwyddiant neu aflwyddiant y gyfrol fechan hon yn profi hyny.

Yr ydym yn cydnabod gyda diolchgarwch gwresog, y beirdd a'n cynorthwyodd drwy anfon i ni gynyrchion eu meddyliau. Gwnaethom ein goreu i gael y gerddoriaeth mor syml, gwasanaethgar, ac ymarferol ag y medrem, gan obeithio y bydd i'r farddoniaeth a'r gerddoriaeth gartrefu byth yn nghalonau ein ieuenctyd. Ein dymuniad yw i hyn o lafur fod yn ddefnyddiol i'n cydgenedl, ac i'r Arglwydd roddi ei fendith ar ei gynwysiad.

Y Gorphwyswn &c.,

W. AUBREY POWELL.

*Scranton, Pa., Medi* 15 *fed,* 1875.

Entered, according to Act of Congress, in the year 1875,

By J. Wellington Taylor,

In the Office of the Librarian of Congress, at Washington.

J. W. Taylor, Music Stereotyper and Printer.

# COR Y PLANT.

## COR Y PLANT.

Geiriau gan J. S James. Wm. Aubrey Powell




2 Mae'r plant a rhieni mewn teimlad ac iaith,
Yn cydgyfranogi o ysbryd y gwaith;
Mae calon wrth galon, yn euro mor gryf,
Ac ysbryd moliannu yn d'od fel y llif.
Cydgan.—O bydded yr ysgol Sabbothol, &c.

3 Mewn urddas teyrnasa, anwylferch y nef,
Mae'th orsedd yn gadarn a'th faner yn gref:
Dyrchafa dy faner at hobloedd o bell,
Cei glywed miliynau yn dweyd—henffych well,
Cydgan.—O bydded yr ysgol Sabbothol, &c.

## YR HYFRYD WLAD.

Geiriau gan GWILYM HIRAETHOG. THOS. GRIFFITHS, St. Clair, Pa.




2 Ac ar ei glanau tyfa pren
Y bywyd—dwyfol, hardd.
Anfeidrol well na hwnw oedd
Yn tyfu yn Eden ardd;

Ac ar ei ffrwythau, nefol pur,
Y gwledda nef y hef,
I dragwyddoldeb, heb ddim trai—
Mae digon arno Ef.

## TYR'D, TYR'D AT IESU.

HUBERT P. MAIN. By per.






3 Tyr'd, tyr'd at Iesu;
Fe ddwg dy faich ei hun,
Y Llwythog, euog, blin;
Tyr'd, tyr'd at Iesu.

4 Tyr'd, tyr'd at Iesu,
Rhydd lygaid i ti'n wir,
Y Dall, i wel'd yn glir;
Tyr'd, tyr'd at Iesu.

5 Tyr'd tyr'd at Iesu,
Rhydd i ti gysgod llawn,
Y Blin, trwy rin yr Iawn;
Tyr'd, tyr'd at Iesu.

5 Tyr'd, tyr'd at iesu;
Cei wledda gyda'r plant,
Yn wynfydedig Sant:
Tyr'd, tyr'd at Iesu.

## SEREN YR HWYR.

Geiriau gan J. SPINTHER JAMES. Y Gerddoriaeth gan JAMES SAYLES.




2 A'i cenad wyt o'r nefoedd fry,
Ar dy dro i'n daear ni?
Gan wasgaru dy nefol swyn,
Beth yw dy neges, seren fwyn?

3 A wyt ti gartre'n un o'r côr,
Sy'n amgylchu gorsedd Iôr!
Yn dyrchafu y gydgan gref?
O! dysg i mi rai o donau'r nef.

 Geiriau gan J. S. James.

# Yr A. B. C.

Wm. Aubrey Powell.






W. Owens. **LACKAWANNA.** 8, 7 & 4. Wm. Aubrey Powell




2 Ynddi argyhoeddwyd lluoedd,
O dru ni pechod cas.
Ac i orphwys eu h neidiau
Ar ddiderfyn olud gras;
Dyma drysor,
Can'mil mwy na'r ddaear hon.

3 Dyolch byth am foddion cymhwys
I addysgu plant yr oes,
Yn y Gair sydd yn amlygu
Am rinweddau gwaed y groes;
Oddiwrth bechod,
Mae'n glanhau yn hyfryd wyn.

# MYNED I FYNY.

Geiriau gan J. S. James. ANAD.






2 Gofynais i ryw *Eryr* cryf,
A h-dai uwch fy mhen,
Can fryssio'n mhell oddiwrth y llawr.
A threiddio fry i'r nen;
Paham na bai'n boddloni byw,
Yn mhlith y coed a'r dail?
Atebai yntau, gan fyn'd ffwrdd—
"Rwy' eisieu gwel'd yr haul."
CYDGAN.—Yr haul! yr haul! &c.

3 Gofynais i *Bererin* lleg,
A deithiau trwy ei oes,
Ar hyd y rhywiau geirwon, serth,
Gan grymu dan ei groes;
Paham yr oedd ar daith o hyd?
Pa beth a geisiai e.?
Atebai yntau yn y fan—
"Rwy' eisieu myn'd i'r Nef!"
CYDGAN.—Y nef! y nef!" &c.

## GYDAR WAWR DEFFROWN.

Geirian gan J. S. JAMES. WM. B. BRADBURY.










3 Y mae pob peth byw, yn mhob man o'r byd,
'Nol eu greddf yn d'od at eu gwaith mewn pryd;
Dyma reol pawb 'r hyd y llwybr cul—
Ydyw bod mewn pryd yn yr Ysgol Sul.

# IESU O NAZARETH SY'N MYN'D HEIBIO.

T. E. PERKINS, by per.




2 Pwy ydyw, Iesu? O ba le
Mae'n gallu llwyr gynhyrfu'r dre?
Pa nerth, pa rin sydd ynddo ef
Pan ddaw i'w ganlyn dorf mor gref?
Y dyrfa'n ddistaw ddwedant wrtho:
"Iesu o Nazareth sy'n myn'd heibio."

3 Iesu! Efe a ddaeth i lawr
O'r nef at ddolurion llymion llawr;
Mae'n rhoddi nerth i'r gwan a'r gwyw,
Mae'n codi'r marw eto'n fyw.
Mewn llawen hwyl mae'r dall yn gwrando:
"Iesu o Nazareth sy'n myn'd heibio."

4 Mae eto'n dyfod trwy y wlad,
Canfyddwn ol ei sanctaidd draed;
Mae'n aros yma wrth ein ty,
Mae'n dod i fewn—Waredwr cu.
A allwn ninau beidio bloeddio:
"Iesu o Nazareth sy'n myn'd heibio."

5 Pob rhai trwmlwythog ato de'wch,
Gorphwysfa, hedd, a chartref gewch;
Chwi grwydriaid pell o dŷ eich Tad,
Dychwelwch, cewch faddeuant rhad;
O golledigion, deuwch ato:
"Iesu o Nazareth sy'n myn'd heibio."

6 Ond os gwrthodwch chwi yn awr
Ei ryfedd gariad dwyfol fawr,
Yn fuan try, ni eilw mwy,
Eich chwerw lef ni wrendy'n hwy.
"Rhy hwyr! Rhy hwyr!" fydd yn adseinio,
"Mae Iesu o Nazareth *wedi myn'd heibio!*"

# GAIR MWYN.

Geiriau gan J. S. JAMES. WM. AUBREY POWELL




2 Pan welot anystyriol blant,
A gwyneb fel y pres;
Gall gair mewn pryd, os bydd yn fwyn,
Wneyd iddynt ddirfawr les.
CYDGAN.—Gair mwyn a ddetry lid, &c.

3 Gwahodd y plant i'r Ysgol Sul,
Gael gwersi llawn o swyn;
Cynghora hwynt yn ddifrif ddwys,
Ond cofia ddyweyd yn fwyn.
CYDGAN.—Gair mwyn a ddetry lid, &c.

# HALELUIA I'R IESU.

Geirian gan J. S. James. JOHN FAWCETT.






## DA O HYD YW DUW.

Geiriau gan J. S. JAMES. A. B. EVERETT.




2 Gwrando donau'r eigion,—
Eu hyfrydwch yw,
Canu am yr uwchaf—
"Da o hyd yw Duw."
F'enaid, una dithau,
Hwylia'th delyn fyw,
Cana'n uwch na'r cread—
"Da o hyd yw Duw."

# EDRYCH FRY.

Geiriau gan J. S. James. Wm. B. Bradbury.




2 Os afradlon wyt ti, wedi gadael dy dad,
Ac os crwydraist mor bell i dir newyn a brad,
Nes diflanodd yn llwyr bob rhyw obaith am fyw,
Edrych fry, trwy dy ddagrau at Ddnw.

3 Pan ddaw'r amser i ben i ti ymadael â'r byd.
A'r Iorddonen a'r sŵn yn dy daro yn fud,
Os bydd rhuad y don yn byddaru dy glyw.
Edrych fry, heibio'i angau at Dduw.

# BANER Y GROES.

Geriau gan H. M. Edwards. Wm. Aubrey Powell.




2 Baner y groes sydd faner wen,
Ac nid oes cysgod ar ei llen;
Heirdd engyl ein Duw a'u daliant,
I chwareu am byth mewn nefol fri.
Cydgan.—Awn yn rhydd, &c.

3 Os ydyw y gelyn yma'n awr
Daw'r adeg pan y syrth i'r llawr;
A Baner y groes yn gain ei gweld.
Adweinir gan seintiau gwlad yr hedd
Cydgan.—Awn yn rhydd, &c.

# CORN Y GAD.

Geirian gan J. S. James. Cynghaneddwyd i'r gwaith hwn.




2 Mae'r miloedd yn ymuno,
A'i fyddin drwy y byd;
Pob llwyth ac iaith a welir,
O dan eu harfan'n nghyd;
Fe enilla'r holl deyrnasoedd
A theyrnasa yn oes oesoedd,
Cawn ninau ganu' gyd.
CYDGAN.—Clywch, ar gorn y gâd, &c.

## BYDD DYNER WRTH BOB PETH.

Geiriau gan J. Ceiriog Hughes. Wm. Aubrey Powell.




Bydd dyner wrth dy dad a'th fam,
Rho'th galon arnynt hwy;
Mae'r byd yn ddigon chwerw, heb
I ti ei chwerwi'n fwy;
Gofala hau, a thi a gei
Gynhauaf, yn ddifeth;
I gael trugaredd dyner Duw,
Bydd dyner wrth bob peth.

# GLAN YR AFON.

Geiriau gan J. S. JAMES. G. F. ROOT.

PAN oeddwn, rai blynyddoedd yn ol, yn nechreu fy ngweinidogaeth yn eglwys Llanelian, G. C. Yr oedd yno frawd oedranus, o'r enw John Llwyd, yn dysgwyl am yr alwad i'r "wlad well." Wrth i mi ymweled ag ef un diwrnod, a gofyn, sut yr oedd yn teimlo? "Yr wyf yn rhodio ar hyd glan yr afon trwy'r dydd heddyw, 'machgen i." ebe yntau, yn edrych am le i groesi—ac 'rwy' wedi ei gael o'r diwedd. Y mae Cyfaill gyferbyn—Llusern yn dal golen yn y glyn,—ac y mae yma Graig yn y gwaelod, i mi osod fy nhraed arni. Fan yma y croesodd Abel, ac yma y croesaf inau." Ac yn mhen ychydig amser, fe aeth drosodd yn ddiogel.

J. S. J.




2 Mae'r afon hon yn rhanu, rhwng
Y byd a thragwyddoldeb;
Ac mae cymylau duon, drwch,
Yn hongiau dros ei gwyneb;
Ond draw mi welaf lusern fydd,
Oleuwyd gan yr Iesu;
Ac yn ei golen gwelaf graig,
O dan fy nhraed i'w chroesi.

3 Nid ofnaf mwy, mae'r Iesu mawr,
Yn gyfaill yn y tonau;
*Fan yma* croesodd Abel gynt,
*Ac yma* croesaf inau:
Fe ganodd miloedd yn y llif,
Wrth deimlo Iesu yno;
O! Arglwydd Iesu, derbyn fi
I'th freichiau 'rwy'n anturio.

WM. AUBREY POWELL.




2 O parchwn yr Ysgol Sabbotbol,  
Mauteisiol, tragwyddol ei gwerth,  
I blygu rhai cyndyn yn ufudd,  
Duw, anfon o'r uewydd dy nerth.

# DOS YMLAEN GRISTION.

Geiriau gan J. Ceiriog Hughes. Wm. Aubrey Powell.



2 Dal dy dir, Gristion,
Gafael yn Satan;
Ar dy lin, Gristion,
Ymladd ef allan.
Digon yw Cymhorth myrdd archengyl.
Cadarn yw'r Ceidwad a saif yn dy ymyl.
Dos ymlaen Gristion, &c.

3 Cwyd y groes, Gristion,
Cymer hi'n llawen,
Dilyn ef, Gristion
Trwy yr Iorddonen.
Cariad Crist Iesu byth ni'n gwahana,
Ynddo byth byddwn—Seiniwn Hosanna.
Dos ymlaen Gristion, &c.

## HOLL LWYBRAU'N HARGLWYDD MAWR.

Geirian gan J. S. James. Wm. Aubrey Powell.










2 Mae swn yr ŷd a'r gwair,
Yn chwarea'n glychau aur,
Yn foliant llawn;
A'r meosydd yn ddiddaw,
Dan sin y gwlith a'r gwlaw,
A roddant fawl i r llaw,
Sy'n rhoi pob dawn.
Cyd.—Holl lwybrau'n, &c.

3 A gaiff y ddôl a'r bryn,
Glodfori Duw fel hyn,
A ninau'n fud!
O! na mae'n tyner fron,
Yn chwyddo'r fynyd hon,
Mewn Cydgan moliant llon,
I Brynwr byd.
Cyd.—Holl lwybrau'n, &c.

# YN RHWYM I DREF.

Geiriau gan J. S. JAMES. J. W. DADMUN.




2 Ni welwn draw oleudy ffydd,
Awn oll i dref, oll i dref;
Mae'n troi twyllwch nos yn ddydd,
Awn oll i dref, oll i dref
Mae'r gwyntoedd a'r tonau,
Yn llaw ein Tad.—
Efe sy'n ein harwain i'r hyfryd wlad,
Mae'n rhoddi Canaan i ni'n rhad,
Awn oll i drof, oll i dref.

# AWN I'R YSGOL SUL.



Geiriau gan J. S. James. Wm. Aubrey Powell.




2 Cawn ddysgu gwersi buddiol,
A fydd o les ysbrydol,
I'r enaid yn dragwyddol,
Wrth fyn'd i'r Ysgol Sul.
Awn, awn, awn!
Ni awn i'r Ysgol Sul!
Awn, awn, awn!
Ni awn i'r Ysgol Sul!

Geiriau gan Meurig Aman. Wm. Aubrey Powell.









2 Dan nawdd yr Ysgol Sul ni gawn,
Wir fwyniant a lleshad,
Derbyniwn wir faeth i'r enaid drud,
A gwir fendithion mad;
Dymunwn gael aros dan ei nawdd,
Nes treulio'n hoes i ben,
Ac yna fyn'd o'r Ysgol Sul,
I wynfyd nefoedd wen.

## CHRISTIANA. M. C.

Wm. Aubrey Powell.







2 Mae'n llon i weled llu o blant,
Pob un a'i dant yn dŷn,
Yn canu'n beraidd gyda blas,
Am ras Calfaria fryn.

3 Eu hymffrost penaf beunydd yw
Gair dwyfol Duw ei hun,
Maent oll o'i blaid fel milwyr da,
A'u gyrfa yn gytun.

# PWY GARAI'N FILWR FOD.

WM. AUBREY POWELL.




2 O dewch ieuenctyd llon,
Mae galwad arnoch n'awr,
Mae'n fraint cael bod yn hon,
Ac yn anrhydedd mawr;
Angylion glân y nef,
A'r oll o'r seintiau gwiw,
Sydd yn ei fyddin ef,
Un ogoneddus yw.

## DYMA BRIF FFORDD Y BRENIN.

Geiriau gan J. S. James. J. W. Dadmun.




2 Myned 'r ydym oll dan ganu,
Mae yr Iesu gyda ni,
Dan ei faner awn i fynu,
I'r orphwysfa ddedwydd fry.
Cho.—Dyma brif ffordd, &c.

3 Gan fod Iesu mor dosturiol,
Yn rhoi gras i nerthu'r gwan,
Awn o nerth i nerth yn wrol,
Adre'i Salem yn y man.
Cho.—Dyma brif ffordd, &c.

Geiriau gan J. S. James. Wm. Aubrey Powell.






## YR ADDFWYN IESU.

Geiriau gan J. S. JAMES. WM. B. BRADBURY.










*Athrawon.*—Pwy sy'n gwrando gweddi'r gwan?
*Plant.*—Iesu'r addfwyn Iesu!
*Athrawon.*—Pwy sy'n eiriol ar ei ran?
*Plant.*—Iesu'r addfwyn Iesu!
*Athrawon.*—Pwy sy'n wyn a thêg ei bryd,
Tecach fyrdd na cheinion byd?
*Plant.*—Iesu Grist sy'n hardd i gyd!
*Cydgan.* Iesu'r addfwyn Iesu.

# CAN YR ANGYLION.

Geiriau gan J. S. JAMES. WM. AUBREY POWELL.






| 2. | 3. |
|---|---|
| Nac ofnwch. medd yr engyl mwyn, | Daw dynolryw o'u poen yn rhydd, |
| Newyddion da y'm heddyw'n ddwyn— | I foli Duw yn ngolau dydd : |
| Mae'r ddaear nawr a'r Nef yn un, | Pob enaid byw trwy'r nef a'r byd, |
| Yn mherson Duw mewn natur dyn. | Mewn nefol gor i foli'r gyd. |

## Y SABBOTH.

*" Yn yr ysbryd ar ddydd yr Arglwydd."* ANAD.



## YMDRECH I GYNYDDU YR YSGOL.

Geiriau gan J. S. James. Wm. B. Bradbury.



Geiriau gan J. Ceiriog Hughes. John P. Jones.




2.

Pwy sydd yn llefaru
  Yn yr awel gref?
Ond yr hwn a hongiodd
  Fydoedd diri'r nef;
Sua dail y llwyni,
  Rhua tonau'r môr,
Cana'r ddaear trwyddi,
  Enw'r Arglwydd Iôr.

3.

Adar y wybrenydd,
  Pysg y dyfnder mawr;
Seren gynta'r hwyrddydd,
  Seren ola'r wawr;
Engyl gwynion gwynfyd,
  Bodau o bob rhyw—
Yn eu cylchoedd folant,
  Enw'r Arglwydd Dduw.

# Y PERERINION.

Geiriau gan J. S. James. Wm. Aubrey Powell.




2.
Bererinion, pwy addawodd
Roddi i chwi'r ddedwydd wlad?
Duw ein tadau a'i haddawodd,
Gynt i Abraham a'i had!
Cyd.—Myned, &c.

3.
Bererinion, ai nid ofnwch
Golli'r ffordd mewn anial maith?
Na, mae'r cwmwl niwl a'r golofn,
Yn ein harwain 'rhyd y daith!
Cyd.—Myned, &c.

## BENDITHIO YR HAD.

Geiriau gan J. S. James. A. B. Everett.






## O'R YSGOL SUL, RWY'N CARU HON.

Geiriau gan J. S. JAMES. O'r "GOLDEN CENSER," trwy ganiatad.




2.
Mae'r ysgol Sul, yn dyner fam,
Yn rhoddi didwyll laeth;
Rhydd ymhorth iach i'r meddwl gwan,
Fydd iddo'n fywiol faeth.
CYD.—O'r Ysgol Sul, &c.

3.
Fel Ioan gynt, mae'n parotoi
Y maes i'r Iesu mwyn;
Ac wedi iddi fagu'r plant,
At Iesu mae'n eu dwyn.
CYD.—O'r Ysgol Sul, &c

# GWLAD Y LLAETH A'R MEL.

Geiriau gan J. S. James. Wm. Aubrey Powell.






2.

Hyfryd iawn yw llwyni teg,
  Gwlad y mel, gwlad y mel,
Blygant o dan ffrwythau chweg,
  Gwlad y llaeth a'r mel ;
Cathlau pur cerddorion gwiw,
  Gwlad y mel, gwlad y mel,
Blethant a goleuni byw,
  Gwlad y llaeth a'r mel.
    Cyd.—Hyfryd wlad, &c.

3.

Gwyddom mai planhigfa hardd,
  Gwlad y mel, gwlad y mel,
Ydyw'r Ysgol Sul i ardd
  Gwlad y llaeth a'r mel ;
Mae hi'n tyfu blodau'n awr,
  Gwlad y mel, gwlad y mel,
I addurno palas mawr,
  Gwlad y llaeth a'r mel.
    Cyd.—Hyfryd wlad, &c.

## SANCTEIDDIO'R SABBOTH.

Geiriau gan J. S. James. — Wm. Griffith.



Geiriau gan J. S. James. Wm. B. Bradbury.






2 Mae'r gelyn yn arfog a digllawn ei wedd—
Awn maes i'w gyfarfod a'r darian a'r cledd;
Mae arfau'n milwriaeth ni yn nerthol. trwy ffydd!
A'r Iesu'n ein harwain—ni a gariwn y dydd.
CYDGAN.—Brysiwn i'r gad, &c.

## I ARDAL AUR DELYNAU.

Geiriau gan D. DYFFRYNOG JENKINS. WM. AUBREY POWELL.










3 Ni syllwn ar un rhosyn gwyw,
All beri ini ddrygau;
Ond sylla beunydd wnawn heb fraw,
Ar Rosyn Saron nes myn'd draw,
I ardal aur Delynau.

4 Wrth orphen teithio'r dyrys fyd,
Mewn parch y bydd ein henwau;
Pob milwr da ac hardd ei lun,
Gymera'r Iesu ato'i hun.
I chwareu'r aur Delynau.

# RWY'N CARU DOD I'R YSGOL SUL.

Geiriau gan J. S. James. | Wm. Aubrey Powell




2

Mae'n dysgu myrdd drwy wersi mân,
I wybod yr Ysgrythyr lan;
A'n henill 'nawr yn moreu'n hoes,
I ganlyn Crist, a dwyn y Groes.
Rwy'n caru d'od, &c.

3.

Mae ganddi luoedd drwy y byd,
Yn tyfu dan ei haden glyd;
Llawforwyn yw i Frenin nef,
I ddwyn y byd i'w garn Ef,
Rwŷ'n caru d'od. &c.

Geiriau gan J. S. JAMES. WM. AUBREY POWELL.




2. *Merched.*—Mae miliynau wedi glanio,
Yn ddiogel yn y nef!
*Bechgyn.*—Mae miliynau ar y fordaith
Eto'n hwylio tua thref.
*Cydgan.*—Fe dawela'r storm yn fuan, &c.

*Merched.*—Pan gyrhaeddwn hafan bywyd,
Ni gawn wynfyd pur, dilyth!
*Bechgyn.*—Pan gyrhaeddwn hafan bywyd.
Cawn fwynhau dedwyddwch byth.
*Cydgan.*—Fe dawela'r storm yn fuan, &c.

# BANER RHYDDID. (Cenedlaethol.)

Geiriau gan J. S. James. | Brinley Richards.






2
Mae'n tadau wedi mwydo
  Hen Gymru gyda'u gwaed,
Cyn goddef i'r gelynion,
  Ei sathru dan eu traed;
Mae iaith a chre-ydd Cymru,
  Ac ysbryd Cymry fu,
A holl fendithion rhyddid,
  'Nawr yn ein meddiant ni.
    Cyd.—O chwifiod, &c.

3.
Mae'r delyn fu yn chwareu
  Mawl-gerddi gwlad y gân,
Yn awr yn gyssegredig
  I dduwies rhyddid lân;
Mae'r tanau oll mewn cywair,
  Dewch 'nawr a'ch lleisiau'n nghyd,
I ganu clodydd rhyddid,
  A'u hadsain dros y byd.
    Cyd.—O chwifiod, &c.

## CLOD AM YR YSGOL SUL.

Wm. Audrey Powell.







2.
Llawer eto sydd heb wybod
  Am eiriau Duw!
Yn addoli eu heilunod,
  Heb eiriau Duw!
Diolch ddylem a rhyfeddu,
Am fod Cymry yn eu meddu,
Clod am Ysgol i'n haddysgu
  Yn ngeiriau Duw!

3.
Arglwydd, cymer ni, blant Cymry,
  Byth, byth, Amen;
Ewyllysiwn ddilyn Iesu,
  Byth, byth, Amen;
Cofia hefyd ein Hathrawon
A'n haddysgant ni mor dirion,
Tywallt arnynt bob bendithion,
  Byth, byth, Amen!

Geiriau gan J. S. James. Wm. B. Bradbury.






## SEREN HEDDWCH.

Geiriau gan ISLWYN. WM. AUBREY POWELL.




2.

Seren ffydd han ballo'i hyder,
Pan y llwyr ddiffygio'i fron,
Dod i'w fynwes nefol gryfder,
Draw, draw ar y don,
Dod i'w fynwes nefol gryfder,
Draw, draw ar y don.

3.

Seren ddwyfol, arwain bellach,
Dwg y Crwydryn adre'n llon,
Profwyd ef yn gyflawn mwyach,
Draw, draw ar y don.
Profwyd ef yn gyflawn mwyach,
Draw, draw ar y don.

4.

Seren gobaith, O! llewyrcha,
Ar y storom olaf hon,
Nes y try'n dragwyddol hindda,
Draw, draw ar y don,
Nes y try'n dragwyddol hindda,
Draw, draw ar y don.

Geiriau gan CYNDDELW. WM. AUBREY POWELL.




2.

Mor hyfryd ydyw iaith
  Ieuenctyd yn gytun.
Wrth ddechreu ar eu taith,
  Yn moli Mab y dyn;
Cyduned lluoedd nef a llawr,
I seinio'n un, Hosanna'n awr.
    CYD.—Clywch sain, &c.

Geiriau gan J. S. James. ANADNABYDDUS.










2.

Ond yn lle bod yn angel
  Pechadur euog wyf;
O! Arglwydd maddeu 'meiau
  Trwy rinwedd marwol glwyf;
Dilea fy anwiredd,
  A golch fi yn dy waed;
A minau a'th glodforaf
  A'm dwylaw wrth dy draed.

3.

A phan y byddaf farw,
  O! Arglwydd, cofia, fi,
Ac anfon un o'th engyl
  I'm dwyn i'r nefoedd fry;
I uno gyda'r dyrfa
  Sydd mewn nefolaidd hoen,
Yn canu am eu golchi,
  A'u cánu'n ngwaed yr Oen.

4.

Ac yna byddaf Angel,
  Ger bron yr orsedd wen;
A llawryf anfarwoldeb
  Yn flodau am fy mhen—
Yn chwareu tanau'm telyn
  I chwyddo'r anthem gref—
Nes byddo sŵn cerddoriaeth
  Yn adsain muriau'r Nef.

# DUW, LLWYDDA'TH AIR.

Geiriau gan J. S. James. Joseph Parry.




2.

Gair fy Nuw yw'r ddwyfol gyfraith,
Duw, llwydda th air ;—
A phob iot o hono'n berffaith,
Duw, llwydda'th air :
Gwyn eu byd y dedwydd ddynion,
Ro'nt ufudd-dod i'w orch'mynion,
Ro'nt ufudd-dod i'w orch'mynion,
Duw, llwydda'th air.

Geiriau gan J. S. James. Wm. Aubrey Powell.




2.
Ni roddwn fyny'r Beibl,
Y llyfyr goreu yw;
A'r unig un all ddangos ffordd
Lle mae tragwyddol fyw;
O ufuddhawn i'w eiriau pur,
Gwrandawn ar lais y nef,
Ac mewn ieuenctyd talwn barch,
I'w fwyn orch'mynion ef.

3.
Ni roddwn fyny'r Beibl,
Gwir nerth yr ysgol Sul;
Arweinia ni ar hyd y ffordd
Sy'n hyfryd—ac yn gul;
O Arglwydd, llwydda'r Beibl pur,
Doed daear fel y nen;
Ac yn mhob calon, drwy y byd,
Y Beibl fyddo'n ben.

Geiriau gan J. S. James. D. H. Thomas.




2 Eiddo'r Iesu yw plant bychain,
Wedi'u prynu ar y pren ;
Ac mae myrdd o gylch yr orsedd,
Yn rhoi'r goron ar ei ben ;
Canwn ninau foliant iddo—
Yn soniarus, " nol ei air ; "
A phan awn i'r nefoedd ato'
Chwareuwn iddo'r delyn aur.

Geiriau gan J. S. James. Wm. Aubrey Powell.




2.

Fe fyddwn yn y beddrod du,
Yn mhen can' mlwydd i nawr!
Bydd neb yn gweld ein heisieu ni,
Yn mhen can' mlwydd i nawr!
Plant ereill fydd yn llanw'r lle,
Drwy'r ysgol Sul, a thrwy y dre'—
O, am dduwioldeb boed ein llef,
Fel cawn ni ganu yn y nef.
Yn mhen can' mlwydd i nawr.

# NEWYDD DA.

Geiriau gan J. S. James. R. O. Pritchard.




2.
Mae baneran'r nef yn chwifio,
A chenadau'r nef yn bloeddio,
Newydd da—newydd da—
Bod maddeuant a gollyngdod,
'Nawr trwy ras, i gaethion pechod,
Newydd da! newydd da!

3.
Mae darpariaeth gan drugaredd,
Rydd i'r enaid lwyr ymgeledd,
Newydd da, newydd da!
Ac mae'r moddion yn santeiddio
Pob creadur,—pawb a gredo;
Newydd da—newydd da.

Geiriau gan E. SAMUEL. Anadnabyddus.




2.
Cawn yno gwrdd yn nghyd,
A'n hoff athrawon gwiw,
Fu yn ein dysgu, yn y byd,
I ddarllen geiriau Duw.
CYD.—O dewch, &c.

3.
Ni ddaw un 'storom flin,
I gyrau'r wlad ychwaith,
Ond tawel, hyfryd, hafaidd, hin,
I dragwyddoldeb maith.
CYD.—O dewch, &c.

Geiriau gan J. S. James. Wm. Aubrey Powell.




2 Rwy'n gwel'd o'm blaen ryw eang borth,
A llydan ffordd agored—
Ac yn cyfeirio ar i lawr—
A lluoedd yn ei cherdded!

Cyd.—Mae'r lydan ffordd yn myn'd i'r tân—
A'r lluoedd ânt ar hyd-ddi!
O gochel di y lydan ffordd,
Mae'n arwain i drueni.

3 Pe bawn i 'n penderfynn'n awr,
I ddewis ffordd y bywyd;
A gawn i deithio gyda chwi,
Ar hyd y ffordd i'r gwynfyd?

Cyd.—Mae croesaw i ti dd'od i'n plith,
Mae'n calon yn dy garn;
O tyred, tyred gyda ni—
Ni wnawn i ti ddaioni.

Geiriau gan R. J. Owens. John P. Jones.




2.

Pan y rhwystrwyd plant at Iesu,
Beth yw'r geiriau dd'wedodd Ef?
"Gadewch iddynt, am mai eiddo'r
Cyfryw rai yw teyrnas nef."
Cyd.—Cyd-ddyrchafwn, &c.

3.

A oes teyrnas ogoneddus,
I dylodion fel nyni?
Oes; can's rhyngodd bodd i'r Iesu,
Roddi'r deyrnas hon i chwi!
Cyd.—Cyd-ddyrchafwn, &c.

## RWY'N CARU'R YSGOL SUL.

Geiriau gan J. S. James. | Wm. Aubrey Powell.




2.

'Rwy'n caru'r Ysgol Sul,
A throsti'n teimlo sêl;
Mae hon yn agor ffordd.
Yn mlaen i'r byd a ddel;
Beth bynag fyddo'r hin,
A nerth y gwynt a'r gwlaw,
Rwy'n dod i'r Ysgol Sul,
A'r Beibl yn fy llaw.

3.

'Rwy'n caru'r Ysgol Sul,
A'i Beibl anwyl hi;
'Does dim yn meddu swyn
Mor fawr i'm henaid i;
Pryd bynag clywch ei llais,
Yn galw oddi draw,
O de'wch i'r Ysgol Sul,
A'r Beibl yn eich llaw.

Geirian gan J. Ceiriog Hughes. Dr. L. Mason.




2.

Mae gwawr i ddod ar Seion
  Yn nghariad Mab y dyn;
Fe gyll pob plaid, ac enwad,
  Ei enw hoff ei hun:
Mae engyl glân goleuni,
  A'u bysedd ar y tant,
I daro'r anthem newydd,
  Pan una Duw a'i blant.

3.

Mae gwawr i ddod ar Seion,
  A haul o newydd wrês;
Mae Sabboth ar ol Sabboth,
  Yn dod a'r dydd yn nes;
Pob emyn, a phob gweddi,
  Anadlant ar fy nghlust,
Am greadigaeth newydd,
  Yn nheyrnas Iesu Grist.

Geiriau gan J. S. JAMES. J. P. JONES.




2.
Mae'r bydoedd oll,
Heb un yn ngholl,
Mewn mil o leisiau'n moli,
A gwlad y gwawl,
Yn chwyddo'r mawl,
I Awdwr pob daioni.

Geirian gan Gwentydd Bychan. Wm. B. Bradbury.




2.

Wedi gorphen dy lafur a'th boen, frawd,
Rhoddir coron cyfiawnder i ti,
A chartref i fyw'n y Jerusalem fry—
Mae goleuni'n y ffenestr i ti.
Cyd.—Y drigfan sydd, &c.

3.

Yna'n mlaen heb ddiffygio, yn mlaen frawd,
O'th holl adfyd, daw hawddfyd i ti;
Claer engyl y nef wen a'th dderbyniant o'r lli;
Mae goleuni'n y ffenestr i ti.
Cyd.—Y drigfan sydd, &c.

# O! NA BAWN YN SEREN.

Geiriau gan J. Ceiriog Hughes — Joseph Parry






2.

Neu'n un o'r planedau,
Ac i mi leuadau
I'm dilyn trwy'r nef, yn ngolwg y byd ;
Neu'n blaned fach wen, yn blaned fach wen,
Ar faesydd y nen, &c.

3.

Neu'n un o'r planedau
Yn cario negesau
O haul pell i haul, fyd pell i fyd ;
Neu'n gomed fawr wen, yn gomed fawr wen,
Ar faesydd y nen, &c.

4.

Mi ddywedwn am ddyfnder,
A hyd, lled, ac uchder
Eangder y nef, a harddwch y byd !
O ! yn seren fach wen, yn seren fach wen,
Ar faesydd y nen, &c.

Geiriau gan J. S. James. Anadnabyddus.




2.

Fel y gwenyn bychain, mwyn,
Byddom ninau beunydd ;
Casglu mel o lwyn i lwyn,
Canu mewn llawenydd ;
Byw yn nghanol Bwyni teg,
Gardd yr Ysgrythyrau ;
'Rhyd y dewis flodau chweg,
Sugno'r melus ddiliau.

Geiriau gan H. M. Edwards. Wm. Aubrey Powell.




2.
Daw angel gwyn tu arall i'r llen,
A'r goron fydd yn ei law,
Ac yna fe'i gwisgir ar fy mhen,
A'r diwedd byth byth ni ddaw.
Cyd.—O am goron o aur, &c.

3.
O Dduw rho'nerth i mi yn y byd,
Fel bydd i mi fyw i ti,
A gwna fi yn deilwng o goron aur,
Y goron a gaf mewn bri.
Cyd.—O am goron o aur, &c.

## CAWN GWRDD TU DRAW I'R NEFOL GAER.

Geiriau gan D. Dyffrynog Jenkins. Wm. Aubrey Powell.




2.
Os 'madael wnaeth yr Iesu mwyn,
A fu yn synu llu;
Tra'n dymuniadau penaf ni,
Am wel'd ei wyneb eu.
Cyd.—Cawn gwrdd, &c.

3.
Os 'madael rhaid dan droion blin,
Hyd wyneb maith y byd;
A newid *hen* gyfeillion am
Rai *newydd* bron o hyd.
Cyd.—Cawn gwrdd, &c.

4.
Os ydyw angeu'r gelyn du,
Yn rhoddi aml glwy;
Trwy dori ein cyfeillion hoff,
I'r bedd—o'n golwg mwy.
Cyd.—Cawn gwrdd, &c.

Geiriau gan H. M. Edwards — George F. Root.




2.
Dysglaer emau, prydferth emau,
Y gemau i'w goron,
Seren yma, heulwen yna,
Ei eiddo ei hun.
Cyd.—Fel mae ser, &c.

3.
Plant yr ysgol rad Sabbothol,
Syn caru eu Prynwr,
Ydyw'r gemau, nefol emau,
Ei eiddo ei hun.
Cyd.—Fel mae ser, &c.

# DIRWEST.

WM. AUBREY POWELL.



1 A wel - aist ti mo'r hu - an, Yn pas - io cop - a'r bryn, Gan
2. Pan ddaw y gwanwyn sir - iol, Fel ang - el teg i'n mysg, I'n



daf - lu gwen - au sir - iol, Ar flod - an mân y glyn; Fel
dol, i'r wig, a'r glas fryn, Cyf - ran - a newydd wisg; A



hyn - y mewn hael - ion - i, Can-fydd - i Ddirwest lon, Yn
phan ddaw Dir - west dirion, Cyf-archa'r meddwyn gwael, Gan



ty - wallt ei ben - dith - ion, Ar blant yr ynys hon.
gyn - yg idd - o'n wyl - aidd, Yn rhad ei ben - dith hael

CYDGAN.



O dewch, O dewch ieu-enc-tyd, I gan - u yn llon bob gŵr,



O dewch,dewch,dewch,dewch,dewch,dewch I ganu, &c.



Gan dd'weyd fel hyn 'mhob pant a glyn, Ein diod gyffredin yw dŵr.



Geiriau gan J. S. James.




2 Pan ddaw'r aeron têg, a'u haroglau chwêg,
I roesawu'r Hâf a'i swyn,
Pan ddaw'r adar mân i ddyrchafu cân,
Gyda mil o leisiau mwyn.
Cydgan.—Yn yr Ysgol, &c.

3 Pan ddaw Hydref hîn, dry bob peth yn grin,
I gyfnewid daear a nen,
Pan ddaw'r gwynt a'i sî, i'n rhybuddio ni,
Bod y flwyddyn bron ar ben.
Cydgan.—Yn yr Ysgol, &c.

4 Pan ddaw'r Gauaf gwyn dros y ddôl a'r bryn,
A'r holl adar mân yn fud,
Gwelir Côr y Plant, gyda thyner dant,
Yn molianu Duw o hyd.
Cydgan.—Yn yr Ysgol, &c.

Geiriau gan J. S. James. Cyng. i'r gwaith hwn.



Geiriau gan GWILYM CYNLAIS. WM. AUBREY POWELL.




2 Er i'n' dreulio'n gwyliau hoff,
Yn awr wrth fodd ein calon;
Dringwn fryn, ond braidd yn gloff—
Y bryn "pan ddown yn ddynion,"
Trefnir yno wleddoedd mwy,
A llawnach medd dychymyg,
Dywed llu o honynt "hwy,"
Fod meddwl hyny'n rhyfyg.

Cyng. i'r gwaith hwn.




4 Yn y tywyll fedd fe'm cofia,
Pwy, pwy fel efe!
Am fy llwch fe lwyr ofala,
Pwy, pwy fel efe!
Egyr ef ei hun fy ngharchar,
Myn fy nghorff o waelod daear,
Ar ei wedd yn bur a hawddgar,
Pwy, pwy fel efe!

Geiriau gan J. S. James. Wm. Aubrey Powell.




2 Ein holl athrawon ffyddlawn,
A'n hathrawesau glân,
A chwithau'n hoff rieni,
Cydunwch yn y gân ;
'Ry'ch heddyw'n gweled llwyddiant,
Eich llafur ynom ni,
Cydunwn i roi'r moliant,
Am hyn i'r nefoedd fry.
Cydgan.—Dewch unwn, &c.

# DIWYDRWYDD.

Geirian gan Dewi Moelwyn. Wm. Aubrey Powell.






## O NA FOLIANENT YR ARGLWYDD.

PSALM 107.

Cyng. i'r gwaith hwn.










## IESU PAID A'N GADAEL.



# AR FRYS I FFORDD YR AWN.

Geiriau gan J. S. James. Cyng. i'r gwaith hwn.













2 Cawn ddysgu darllen Beibl Duw,
Wrth dd'od yn llon i'r Ys.,ol Sul;
Ac wr.h y Beibl ddysgu byw,
Wrth dd'od i'r Ysgol Sul;
Mae dysgu'r wers yn ddedwydd waith,
Wrth dd'od yn llon i'r Ysgol Sul;
Y dydd dedwyddaf yw o'r saith,
Wrth dd'od i'r Ysgol Sul.
Cydgan.—Ar frys i ffordd, &c.

## GAWN NI GANU YN NI NEFOEDD.

Geiriau gan J. S. James. Wm. Aubrey Powell.







Cydgan.







2 Gawn ni ganu yn oes oesoedd?
Gân yr Oen, Gân yr Oen?
Gawn ni ganu yn oes oesoedd?
Gan i Dduw a'r Oen?
Cyd.—Cawn, &c.

Geiriau gan E. SAMUEL. Cyng. i'r gwaith hwn.




2 Er ymladd a gelynion
Dywy'n hoes, ni bydd yn faith;
Cawn orphwys yn y diwedd,
Yn iach ar ben y daith.
CYD.—Ni gawn orphwys, &c.

3 Er bod y tonau'n uchel,
A'r gwynt yn groes o hyd;
Mae'n Llywydd yn alluog
I'n dwyn i'r porthladd clud.
CYD.—Ni gawn orphwys, &c.

# PE BYDDWN YN HAULWEN.

Geiriau gan J. S. James. Wm. Aubrey Powell.




co - - - - di ei ben . . . Pe bydd - - - wn yn
f
blod-yn yn co - di ei ben . . . Pe byddwn, pe byddwn yn
p
haul - wen, mi wn b'le yr awn, Awn
haul - wen, pe byddwn mi wn, mi wn b'le yr awn, Awn
lawr . . . . i'r bwth-yn - od dis - tadl - - - - af a gawn.
lawr, awn lawr i'r bwthyn-od, i'r bwthyn - od dis - tadlaf a gawn.
Gol - eu - wn drig-ol - ion, pob bwth-yn a thref, Nes
Gol - eu - wn drig-ol - ion, pob bwthyn—pob bwthyn a thref, Nes


bydd-ent mewn awydd am fyn - - - - ed i'r nef— O
byddent mewn awydd, mewn awydd am fyn - ed i'r nef O
blent - - - yn yr ydwyt, yn haulwen, di-ail, yn
blentyn, O blent-yn yr ydwyt, yn haulwen, yn haulwen diail! yn
medd - - - u gol - eu-ni, Rhagor - - - - ach na'r haul!
medd-u, yn meddu gol - eu-ni. Gol - eu - ni rhag-or-ach na'r haul!
Gwasgar-a'r gol - eu - ni trwy'r ar - dal yn rhydd, Nes
Gwasgar-a'r gol - eu - ni twy'r ar - dal, trwy'r ardal yn rhydd, Nes


dwyn y trig - ol - ion i ar - dal y dydd, Gwas-
f
dwyn, nes dwyn y trig - ol - ion i ar - dal y dydd, Gwas-
p
gar - a'r gol -eu - ni trwy'r ardal yn rhydd, Nes dwyn y trigolion i
gar - a'r gol - eu - ni trwy'r ardal yn rhydd, Nes dwyn y trigolion i
ar-dal y dydd
ar-dal y dydd, Gwasgara'r gol - eu - ni trwy'r ar-dal yn rhydd, Nes
pp
dwyn y trig - ol - ion i ar - dal y dydd

## TALODD IESU'N LLAWN.

### ALL TO CHRIST I OWE.

Words by Mrs. E. M. Hall. J. T. Grape.




Dy gariad, Iesu mawr,
'Rwy'n gweled wrth fy modd,
Wna'r llewpard brych yn deg.
A'r galon gareg dodd.—*Cyd.*

3 Heb ddim 'r wyf ger dy fron
I hawlio braint na bri;
Mi gana 'm gwisg yn wen
Yn ffynon Calfari.—*Cyd.*

4 Caf ddod o'm gwely llwch,
Ehedaf uwch y nen;
Can "Talodd Iesu'n llawn"
A leinw'r nefoedd wen.*Cyd*—.

5 Gerbron yr euraidd faine,
Yn llawn caf ynddo fod;
A rhoddaf wrth ei draed
Byth, byth y parch a'r clod.—*Cyd.*

2 Lord, now indeed I find
Thy faith, and thine alone,
Can change the leper's spots,
And melt the heart of stone.—*Cho.*

3 For nothing good have I,
Whereby thy grace to claim—
I'll wash me in the blood,
The blood of Calvary's Lamb.—*Cho.*

4 When from my dying bed,
My ransomed soul shall rise,
Then "Jesus paid it all,"
Shall rend the vaulted skies.—*Cho.*

5 And when before the throne,
I stand in Him complete,
I'll lay my trophies down,
All down, at Jesus' feet.—*Cho.*

# BEAUTIFUL LAND OF REST.

Music by R. Lowry.






2 Jerusalem, for ever free,—
Beautiful land of rest!
The soul's sweet home of Liberty,—
Beautiful land of rest!
The gyves of sin, the chains of woe,
The ransomed there will never know.
Jerusalem, &c.

2 Jerusalem gwlad rhyddid llawn,
Hyfryd yw'r fro i fyw,
Gorphwysfa lonydd yno gawn,
Hyfryd yw'r fro i fyw,
Mor beraidd yno fyddein cân. [mân."
"A'n holl gadwynau 'n chwilfriw
Jerusalem, Jerusalem, &c.

## AWN, AWN I'R YSGOL SUL.

Y geiriau gan E. Roberts.







2 Yn dorf gariadus awn yn-llon,
Awn, awn i'r Ysgol Sul.
Heb ddig na malais dan un fron,
Awn, &c.
Cael addysg bur yn ngeriau Duw,
Y trysor gwerthfawrocaf yw;
Ni awn i'r Ysgol tra bo'n byw.
Awn, &c.

3 Diolchwn i'n hathrawon cu,
Am dd'od i'n dysgu ni.
Chwi gewch eich tâl mewn gwynfyd fry, Am, &c.
Fe dd'wedodd Iesu'r Bugail mwyn,
Am i'w ddysgyblion borthi'r wyn,
A daethoch chwithau yn ddigwyn,
Do, do, i'n disgu ni.

4 Chwi sydd yn meddu dysg a dawn,
O dowch i'n dysgu ni;
Cysegrwch i ni un prydnawn,
O dowch, &c.
Pan qeddech icuaingc dysgwyd chwi
Gan rai oedd hyn—mawr oedd eu bri—
Dowch chwithau'n awr i'n disgu ni,
O doch, &c.

# HAPUS DREF.

Geriau gan DEWI EMBYN. W. O. PERKINS.



# Y FFORDD I LWYDDIANT.

Geiriau gan J. S. James. Wm. Aubrey Powell.



# CAN Y COED. (Pic-nic.)

Geiriau gan J. S. JAMES. Y Gerddoriaeth gan WM. AUBREY POWELL.






2 Mae'r blagur byw o dan eu gwyn,
A'r glaswellt dan y gwlith;
A'r deryn dû yn canu'i don,
I'w gywion yn y nith;
A'r awel fwyn yn siglo cryd,
Y derw can' mlwadd oed;
Cydunwch nawr i gann' gyd,
Awn ninan tna'r coed.
I ffwrdd, i ffwrdd a ni tua'r coed.

3 Cawn yfed dw'r o'r ffynon iach,
A dringo llethrau'r bryn:
A throi, am unwaith, eto'n blant,
I chwaren fel y mỳn;
Cawn hela cnau, a'r grawnwyn teg,
A'r mwyar gwyllt, a'r llus:
O dewch i gasglu'r ffrwythau chweg—
Awn tna't coed ar frys.
I ffwrdd, i ffwrdd a ni tua'r coed.

## GOLWG HARDD.

Geriau gan J. SPINTHER JONES — Cynghaneddwyd i'r gwaith hwn.







Cydgan.






# MAE DUW YN RHODDI GRAS I BLANT.

Geiriau gan J. SPINTHER JAMES. Y gerddoriaeth gan WM. AUBREY POWELL.



Words by Fanny Crosby.




3 Words of comfort you shall hear
Come again, come again:
From the Book we love so dear
Then come, come again:
Jesus suffered on the tree,
Jesus died for you and me,
His disciples you may be,
O come, come again.

4 Come on every Sabbath day,
Come again, come again;
Never, never stay away,
O come, come again;
Now improve the hours that fly,
They are gliding swiftly by,
You are not too young to die,
Then come, come again.

## Y PORTH AGORED.

1 Mae porth yn gilagored, oes,
A thrwyddo mae'n pelydru,
O bell, ddisgleirdeb pur y groes,
Anfeidrol gariad Iesu.

CYDGAN.

O ddyfnder gras, heb faint na rhi'!
Ai porth agored yw i mi? mi, i mi?
Agored yw i mi? i mi? I mi?
Agored yw i mi?

2 Mae'r porth yn agor fore a nawn
I bawb sy'n ceisio'r nefoedd;
I hen ac ieuanc, llwm a llawn.
Pob llwyth ac iaith a phobloedd.
O ddyfnder gras. &c,

3 Er lled gelynion, ewch ymlaen,
Tra mae y porth yn agor;
'Rol cario 'r groes, cewch goron lan,
A Duw a'i nef yn drysor.
O ddyfnder gras, &c.

4 Cawn ganu 'n iach i'n croes a'n cur
'Rol croesi Iorau'r afon;
A byw i garu 'n Prynwr pur,
A bythol wisgo 'r goron.
O ddyfnder gras, &c.

## HYMN ARALL (Gyda'r un Gydgan.)

(Tu dal 81.)

1 Gorphenodd Iesu 'r gwaith.
Fe roddodd berffaith lawn;
Ac yn ei haeddiant ef
Mae hedd a phardwn llawn.—*Cyd.*

2 Mi blygaf wrth ei draed,
Erfyniaf am gael byw;
A golchaf yn ei waed
Fy meiau o bob rhyw.—*Cyd.*

3 Do. talodd Iesu 'n llawn,
Dan hoelion ar y pren;
Yn rhydd caf finau mwy
Roi' r goron ar ei ben.—*Cyd.*

## Y DDAFAD GOLLEDIG.

(THE NINETY AND NINE.) IRA D. SANKEY.

1 Yr oedd cant namyn un o'r praidd mewn hedd,
Dan ofal y Bugail o hyd.
Ond aeth un ar goll gan grwydro 'mhell,
A gadael y gorlan glyd;
Draw, draw i'r mynyddoedd a'r anial maith,
Heb Fugail, heb gysgod na phorfa chwaith,
Heb Fugail. heb gysgod na phorfa chwaith,

2 O Arglwydd, mae genyt dy gant namyn un.
Ai nid digon hyn i ti?
Na, na, medd y Bugail,—Fy nafad hon
Aeth i grwydro oddiwrthyf fi:
Er mor arw yw'r ffordd, i'r anial yr af,
A cheisio fy nafad yno wnaf.

3 Ni ddeallodd nac angel pur na sant
Y dyfroedd a ddaeth i'w ran,
Na dwysder y nos a gyfarfu efe
Pan yn ceisio ei ddafad wan:
Yn llesg a di- nerth, yn marw 'roedd hi,
Ond yn yr anialwch fe glywydd ei chri.

4 Pa ryw goch ddiferynau trwy y daith
Sydd yn nodi ol dy draed?
Er dwyn y grwydredig eto'n ol:
Y Bugail a roes ei waed.
Dy ddwylaw a'th draed! Pa dyllau yw'r rhai'n?
Fe'n gwanwyd, fe'u rhwygwyd gan y drain.

5 Trwy yr cang fynyddoedd, o'r creigiau serth,
Daw yr adsain fel taran gref,—
"Llawenhewch. mi gefais fy nafad han,
Llawenhewch holl deulu'r nef:"
Mae'r Bugail yn llawen. er colli ei waed,
Trwy'r nef mae gorfoledd, y ddafad a gaed.

† Prin y mae eisiau crybwyll wrth y cerddor cyfarwydd a deallgar y gellir agor y trydydd a'r chwechfed curiad yn mhob mesur, neu beidio, yn ol galwad y sillau yn y geiriau.—

# THE NINETY AND NINE.

Elizabeth C. Clephane. Ira D. Sankey.



# CITY OF GOLD.

Fanny J. Crosby. W. H. Doane.







3.

Every soul we have led to the foot
of the cross,
Every lamb we have brought to
the fold,
Will be kept as bright jewels our
crown to adorn,
In that beautiful city of Gold.

From "Brightest & Best," by permission Biglow & Main.

## THERE'S A SWEET LAND OF REST.

WM. STEVENSON. R. LOWRY.




From "Brightest and Best," by permission of Biglow & Main.

# COMING, YES, WE'RE COMING.

W. H. DOANE.




From "Brightest & Best," by per. Biglow & Main.

"Dal yr hyn sydd genyt." Dat. II. 25. P. P. BLISS.

DOH D.

s .,l :s .m |d' .,r' :d' .l |s .,l :s .m |r :
Filwyr Ie - su, we - le arwydd Yn y nefoedd draw;
m .,f :m .d |m .,f :m .f |m .,f :m .d |t, :

d' .,d' :d' .s |s .s :s .d' |d' .,d' :d' .s |s :
Filwyr Ie - su, we - le arwydd Yn y nefoedd draw;
d .,d :d .d |d .,d :d .d |d .,d :d .d |s, :

s .,l :s .m |d' .,r' :d' .l |t .,d' :t .l |s : —
Nerthoedd newydd sy'n dy - nes - u, Concwest sydd ger - llaw:
m .,f :m .d |m .,f :m .m |r .,m :r .d |t, : —

d' .,d' :d' .s |s .,s :s .l |s .,s :s .fe |s : —
Nerthoedd newydd sy'n dy - nes - u. Concwest sydd ger - llaw:
d .,d :d .d |d .,d :d .d |r .,r :r .r |s, : —

CYDGAN.

d' .,d' :d' .,d' |d' .s :m .s |l .,l :l .d' |t : – .
Daliwch af - ael, medd yr Ie - su, "Deuaf at - och chwi";
m .,m :m .,m |m .m :d .m |f .,f :f .f |r : – .

s .,s :s .,s |d' .d' :d' .d' |d' .,d' :d' .l |s : – .
Daliwch af - ael, medd yr Ie - su, "Deuaf at - och chwi";
d .,d :d .,d |d .d :d .d |f .,f :f .f |s : – .

d' .,d' :d' .d' |r' .d' :t .l |s .,s :l .t |d' : —
Bloeddiwn ninau'n ol—"Ni ddaliwn Yn dy all - u - di."
m .,m :m .m |f .f :f .f |m .,m :f .f |m : —

s .,s :s .s |l .l :d' .d' |d' .,d' :t .r' |d' : —
Bloeddiwn ninau'n ol—"Ni ddaliwn Yn dy all - u - di."
d .,d :d .d |f .f :f .f |s .,s :s .s |d : —

2 Lluoedd Satan, arfog fyddin,
Sydd yn agoshau;
Dewrion wyr o'n cylch sy'n sythio
Ninau 'mron llesgau:
Daliwch afael, &c.

3 Gwelwch faner Iesu'n chwifio,
Clywch yr udgorn clir;
Llwyr orchfygwn bob gelynion
Trwyddo cyn bo hir.
Daliwch afael, &c.

4 Maith a chaled yw'r ymdrechfa,
Ond cawn nerth wrth raid;
Daw yn mlaen ein cadarn Lywydd,
Cymer ef ein plaid.
Daliwch afael, &c.

# MYNEGAI I'R TONAU.


TU DALEN.

A. B. C., yr........................ 6
Adsain Moliant...................... 44
Ar frys i ffordd yr awn............. 74
Awn, Awn, i'r Ysgol Sul............. 83
Awn i'r Ysgol Sul................... 23

Baner Rhyddid....................... 42
Baner y Groes....................... 15
Beautiful Land of Rest.............. 82
Beibl arall Duw..................... 33
Bendithio yr had.................... 34
Bydd dyner wrth bob peth............ 17

Cân yr angylion..................... 30
Cân y coed.......................... 86
Can' mlwydd i nawr.................. 51
Carwn wybod am yr Iesu.............. 55
Cathl y boreu....................... 58
Cathl y tymoran..................... 67
Cawn Gwrdd tu draw i'r nefol gaer... 64
Christiana.......................... 25
City of Gold........................ 92
Clod am yr Ysgol Sul................ 43
Come Again.......................... 89
Coming, yes we're coming............ 94
Côr y Plant......................... 3
Corn y Gad.......................... 16
Cwrdd Ysgol......................... 46

Da o hyd yw Duw..................... 13
Daliwch Afael....................... 95
Dan Nawdd yr Ysgol Sul.............. 24
Dewch unwn ein Caniadau............. 71
Dirwest............................. 66
Diwydrwydd.......................... 72
Dos ymlaen Gristion................. 20
Duw, llwyddaʼth Air................. 48
Dyma brif ffordd y Brenin........... 27
Dymuniad Plentyn.................... 47

Edrych fry.......................... 14

Fy mab, bwyta fêl................... 62

Gair mwyn........................... 11
Gawn ni ganu yn ni Nefoedd.......... 75
Glan yr Afon........................ 18
Golwg hardd......................... 87
Gwlad y llaeth a'r mêl.............. 36
Gwledd y Plant...................... 69
Gyda'r wawr, deffrown............... 9

Haleluia i'r Iesu................... 12
Hapus Dref.......................... 84

TU DALEN.

Holl Lwybrau'n Harglwydd mawr....... 21
Hymn Arall.......................... 90

I Ardal aur Delynau................. 39
Iesu paid a'n gadael................ 73
Iesu o Nazareth sy'n myn'd heibio... 10

Lackawanna.......................... 7
Llwyddiant yr Ysgol Sabbothol....... 19

Mae Duw yn rhoddi gras i blant...... 88
Mae gwawr i ddod ar Seion........... 57
Mae goleuni'n y ffenestr i ti....... 59
Myned i fyny........................ 8

Newydd da........................... 52
Ni roddwn fyny'r Beibl.............. 49

O dewch i'r hyfryd wlad............. 53
O! Dewch tua'r Ysgol Sul............ 68
O! na bawn yn seren................. 60
O na folianent yr Arglwydd.......... 73
O'r Ysgol Sul, rwy'n caru hon....... 35

Pe byddwn yn haulwen................ 77
Plant yn canu....................... 50
Pwy fel efe......................... 70
Pwy garai'n filwr fod............... 26

Rwy'n caru'r Ysgol Sul.............. 56
Rwy'n caru dod i'r Ysgol Sul........ 40

Sancteiddio'r Sabboth............... 37
Seren yr hwyr....................... 5
Seren heddwch....................... 45

Talodd Iesu'n llawn................. 81
There's a sweet Land of Rest........ 93
The Ninety and Nine................. 91
Tyr'd, Tyr'd at Iesu................ 4

Y Ddafad Golledig................... 90
Y fordaith ysbrydol................. 41
Y frwydr ysbrydol................... 38
Y ffordd i lwyddiant................ 85
Y Gemau............................. 67
Y Goron Aur......................... 63
Ymdrech i gynhyddu yr Ysgol......... 32
Ymgom y plant....................... 28
Y Nefoedd........................... 76
Yn Rhwym i Dref..................... 22
Y Pererinion........................ 34
Y Porth agored...................... 90
Yr addfwyn Iesu..................... 29
Yr ymofynydd pryderus............... 54
Yr hyfryd wlad...................... 4
Y Sabboth........................... 31